


Llwybr Datblygu'r Gymraeg



2023-24

Hedydd Jones

hedydd.jones@pcydds.ac.uk

Darlith 12

Dydd Mawrth 16^{eg} o Ebrill
2024



Codwch lan
ar eich traed.

Mae angen i
chi dorri hwn
mas/allan.

Meddyliwch
am un peth
gallwch chi
wella ar...

Peidiwch
gweiddi
allan!

Dewch lan
i ffrynt y
dosbarth.

Cofiwch
arafu'r bêl
lawr.

Da iawn Jac,
so, fel gest ti'r
ateb yna?

Trowch y
golau bant.

Saesneg yn Gymraeg

Nod y sesiwn

- Sylwi ar ein defnydd o ymadroddion Seisnig yn ein gwaith llafar ac ysgrifennu.
- Adnabod yr elfennau sy'n Saesnigeiddio ein Cymraeg a sut i'w goresgyn wrth gyfieithu gan ddefnyddio ymadroddion Cymreig.


Annwyl Syr,

Rhai amserau, byddaf yn cael y teimlad bod dylanwad y Saesneg yn cymryd drosodd yn fy ngwaith. I fyny i nawr, dydw i ddim wedi talu sylw i'r mater, a dwi wedi bod yn gwneud lan esgusodion, ond fel canlyniad mae'r broblem wedi dod yn waeth.

Felly, mi fyddwch yn falch i glywed fy mod i wedi gwneud fy meddwl i fyny i ffeindio allan sut alla i gael gwared o'r idiomaau Saesneg o'm gwaith. Y flwyddyn nesaf rwy'n gobeithio cymryd i fyny'r cyfle i gymryd rhan mewn cwrs gloywi iaith.

Rwy'n edrych ymlaen i'r diwrnod cyntaf o'r cwrs yn barod! Dwi'n gobeithio cael llawer allan o'r cwrs. Gobeithio y bydda i'n deall beth mae'r tiwtoriaid yn sôn amdan yn y gwersi!

I gyd o'r gorau,
Dean Doole



Uwcholeuwch yr ymadroddion Seisnig i gyd.
Ydych chi'n gallu meddwl am ffyrdd mwy Cymreig o'u dweud?

Ymadroddion

Mae llawer iawn o ymadroddion Saesneg yn defnyddio *up, down, out, in, off, on, around*, ac yn aml iawn byddwn yn trosi'r rhain yn gaeth wrth gyfieithu i'r Gymraeg, yn enwedig wrth sgwrsio.

Enghreifftiau yn y llythyr:

i fyny i nawr ☹️

cymryd i fyny'r cyfle ☹️

yn gwneud lan esgusodion ☹️

i ffeindio allan ☹️

hyd yn hyn 😊

achub ar y cyfle ; manteisio ar y cyfle 😊

yn gwneud esgusodion 😊

i ddarganfod / i ddod o hyd i ... 😊

Ymadroddion

Mae ychwanegu'r gair "up" yn beth naturiol iawn yn Saesneg e.e.
Looking up *Putting up* *Bringing up*

Yn anffodus, mae'n demtasiwn gwneud yr un peth ac ychwanegu "fyny" wrth drafod y pethau hyn yn Gymraeg e.e.

Edrych y gair i fyny yn y geiriadur
Rhoi i fyny
Dwyn i fyny neu dod i fyny

yn hytrach na
yn hytrach nag
yn hytrach na

chwilio am
ildio / rhoi'r gorau i
magu neu codi'r pwynt

Cyfieithu...

Cyfieithwch y brawddegau hyn heb ddefnyddio
'i fyny/lan, off, lawr, mas/allan, i ffwrdd, ymlaen'
...

1. Don't drink the milk Alys, it's gone off!
2. We'll have to sort the books out.
3. We can carry on with the work after playtime.
4. Schools will be breaking up early this year.
5. Don't forget to wash up after you tidy up children!
6. I don't want the children to miss out.
7. Can you work the answer out Ellis?
8. The children get on well together.
9. Write the answers down on your paper.



Yr arddodiaid anghywir!

1. Defnyddio'r arddodiaid anghywir ...

Enghreifftiau yn y llythyr:

yn falch i glywed ☹️

cael gwared o'r idiomau ☹️


edrych ymlaen i ☹️

yn falch o glywed 😊

cael gwared â'r idiomau 😊

edrych ymlaen **at** 😊

am, ar, at,
dan, dros,
drwy, wrth,
gan, hyd,
heb, i, o.



Lleoliad yr arddodiaid!

Yn ôl gramadeg safonol Saesneg, ddylen ni ddim gorffen brawddeg gydag arddodiad. Mae'r rheol hon yn cael ei thorri'n gyson bellach. Yn Gymraeg, fodd bynnag, gallwn orffen brawddeg gydag arddodiaid, **ond** rhaid i ni 'redeg' yr arddodiad i gyfeirio nôl at y peth/person yn gywir. Dydyn ni ddim yn gallu gorffen brawddeg gydag arddodiad syml (am, ar, at, dan, dros, drwy, wrth, gan, hyd, heb, i, o).

Felly gellir cyfieithu ...

The chair I was sitting on neu The chair (upon) on which I was sitting
... i'r Gymraeg: **y gadair roeddwn i'n eistedd arni.**

Enghraifft o'r llythyr:

gobeithio y bydda i'n gwybod beth mae'r tiwtoriaid yn sôn **amdan** ☹

gobeithio y bydda i'n gwybod **am** beth mae'r tiwtoriaid yn sôn ☺

gobeithio y bydda i'n gwybod beth mae'r tiwtoriaid yn sôn **amdano** ☺

Dyma
reswm arall
pam mae'n
bwysig
gwybod
cenedl yr
enw!

Ailadrodd arddodiaid

Gwyliwch rhag dilyn cystrawen y Saesneg gyda brawddegau fel:

He was fond of and worried about his colleague.

Roedd yn hoff o ac yn poeni am ei gydweithiwr. (Anghywir) ☹️

Yn Gymraeg, rhaid i ni gyflew'r ystyr fel hyn:

Roedd yn hoff o'i gydweithiwr ac yn poeni amdano. (Cywir) 😊

Enghraifft arall fyddai:

I would like to hear from you on or before 26 March.

Hoffwn glywed gennych ar neu cyn 26 Mawrth. ☹️

Hoffwn glywed gennych ar 26 Mawrth neu cyn hynny. 😊

Yr arddodiad 'i': Gair bach â goblygiadau mawr!

Rhoi i o flaen geiriau i gyfieithu "to".

Mae angen yr arddodiad hwn er mwyn mynegi bwriad / amcan (*intention*) ac ati ond byddwch yn ofalus rhag ei orddefnyddio.

Trowch 'i' wyneb i
waered - !
Dydy hynny ddim yn
gyd-ddigwyddiad!
Byddwch yn ofalus
gydag 'i' bob tro 😊

Gydag Enwau ...

mae angen adolygu

Ond ... **hawl i** fynd

mae'n bryd gorffen

gallu i lwyddo yn yr arholiad

bydd hi'n ffrainc cael

caniatâd i fynd

Yr arddodiad 'i': Gair bach â goblygiadau mawr!

Gyda Berfau a Berfenwau ...

penderfynu mynd

gobeithio cael y swydd

cofiwch ddweud

OND ...

Ilwyddo i wneud...

parhau i fynd

Gydag Ansoddeiriau ...

mae'n well peidio dweud

byddai'n fuddiol trafod y pwnc

Ond ...

mae'n bwysig gwneud y gwaith


yn addas i gynnal...

yn gymwys i ddysgu

yn hyderus i arwain

Cyfieithu 'the... of the ...' o'r saesneg

Yn y llythyr:
y diwrnod cyntaf o'r cwrs ☹️
diwrnod cyntaf y cwrs 😊



Mae angen bod yn ofalus iawn wrth gyfieithu ymadroddion lle ceir "the ... of the" yn Saesneg. Yn Saesneg mae angen **the** ac **of the** mewn ymadroddion fel y canlynol:

the chairperson of the governors
the main point of the letter
the implications of the letter

Wrth gyfieithu, does dim angen cyfieithu'r 'the' cyntaf na'r 'of'

cadeirydd y llywodraethwyr
prif bwynt y llythyr
goblygiadau'r llythyr

Eich tro chi...

Cyfieithwch y brawddegau hyn:

On the other side of the classroom.

At the other end of the street.

Half the children in the class .

It is difficult to assess the number of children who will come.

The notes of the last lesson.

One of his students.

The other side of the argument.

The headteacher's office.



Defnyddio "cael" yn anghywir wrth gyfieithu *have / got*.

Yn y llythyr:

byddaf yn cael y teimlad (*I get the feeling*) ☹

mae'r broblem wedi dod yn waeth (*the problem has become/got worse*) ☹

gwaethygu ☺

byddaf yn teimlo ☺

mae'r broblem wedi

I had...

Mi ges i/ Cefais i

Roedd gen i

I had to go...

I had a great day...

The children **had** break at 2 o'clock...

They **had** salad for ginio...

He **had** to leave...

I had lived in Llandudno...

She **had** shopped in London...

He **had** something to say...

Roedd rhaid i mi

Roedd ... gyda fi

Roeddwn i wedi

Roedd rhaid i mi fynd

Cefais i ddiwrnod da

Cafodd y plant egwyl am ddau o'r gloch

Cawson nhw salad i ginio

Roedd rhaid iddo fe adael

Roeddwn i wedi byw yn Llandudno.

Roedd hi wedi siopa yn Llundain.

Roedd ganddo fe rywbeth i'w ddweud.

Cyfieithu idiomau yn llythrennol...

Mae gan bob iaith ei hidiomau neu ei hymadroddion idiomatig. Dyna'r pethau sy'n cyfrannu at naturioldeb yr iaith a'n rhuglder.

Yn eu hanfod, dydyn nhw ddim yn gallu cael eu cyfieithu'n llythrennol o un iaith i iaith arall.

Enghreifftiau yn y llythyr:

rhai amserau ☹️

yn cymryd drosodd ☹️

cymryd rhan ☹️

i gyd o'r gorau ☹️

fel canlyniad ☹️

weithiau; ambell waith 😊

yn fwy amlwg 😊

mynd ar / gwneud / mynychu 😊

cofion gorau; yr eiddoch yn gywir; yn gywir 😊

o ganlyniad 😊

I grynhoi...

Dyma grynodeb o rai pethau dylech chi eu cofio neu eu hosgoi.

1. Byddwch yn ofalus wrth gyfieithu ymadroddion sy'n cynnwys '*up, down, in, out, on ac off*'. Meddyliwch – oes **angen** cyfieithu'r gair olaf?
2. Yr Arddodiaid:
 - Allwn ni ddim gorffen brawddeg gydag arddodiad heb ei redeg.
 - Byddwch yn ofalus gyda'r arddodiad 'i'.
 - Gofynnwch i'ch hunan – ydw i wedi defnyddio'r arddodiad cywir?
3. Byddwch yn ofalus wrth gyfieithu '*the ... of the ...*' – does dim angen cyfieithu'r '*the*' cyntaf na'r '*of*' – meddyliwch am 'Pobl y Cwm'.
4. Mae sawl cyfieithiad gwahanol posib i '*had*' – nid 'cael' ydy'r ateb bob tro!
5. Mae gan bob iaith ymadroddion idiomatig, a does dim modd eu cyfieithu'n llythrennol o un iaith i iaith arall. Defnyddiwch ymadroddion idiomatig Cymreig yn hytrach na cheisio cyfieithu'r rhai Saesneg.

Gwallau Cyffredin



Geiriau Tebyg

- Gwario / Treulio:
 - Gwario arian / Treulio amser
- Adnabod / Gwybod:
 - Adnabod person / Gwybod y ffeithiau
- Hwyllog / Hwylus:
 - *Fun / Convenient*
- Sometimes
 - Weithiau (mae 'rhai weithiau' yn anghywir)
- Too much
 - Gormod (mae 'rhy gormod' yn anghywir)

â/ag

- â/ag = with/by means of (gyda)
 - â = Treigladd Llaes PTC
 - mynd â'r ci am dro.
-
- ag – dim treigladd
 - mynd ag afal yn fy llaw
 - dod ag offer i'r wers

a/ac = and

- a = cyn cytsain (yn achosi treigladau llaf)
- ci a **ch**ath
- mab a **th**ad

- ac – cyn llafariad
- afal ac **o**ren
- prifysgol ac **y**sgol

Mae'n / Maen

Cofiwch:

Maen nhw = they are

Mae'n = mae hi'n = it is/she is

Mae / Maent

- Dyma sut i redeg y ferf 'bod' yn gywir yn yr amser presennol:

Rydw i / Dw i

Rwyt ti

Mae e

Mae hi

Rydyn ni

Rydych chi

Maen nhw / Maent

Maent = Maen nhw

Pa frawddegau sy'n anghywir felly?

1. Gweithiodd Tomos yn dda y tymor hwn. Maent wedi llwyddo cwblhau dau asesiad llafar yn llwyddiannus.
2. Cydweithiodd yr holl ddisgyblion ar y prosiect. Maent yn hapus iawn â'r canlyniad.
3. Colin Baker ydy awdur yr adroddiad. Maent yn trafod yr amrywiol ffyrdd y gall unigolyn gaffael iaith.

YMARFER : Llenwch y bylchau

1. amlwg bod pawb wedi mwynhau'r wers yn fawr iawn.
2. nhw'n mynd i Abertawe i siopa bob dydd Sadwrn.
3. Ble nhw'n mynd heno?
4. braf iawn yma yn yr haf.
5. well i chi ddechrau paratoi at yr arolwg.
6. nhw'n astudio gramadeg ar y cwrs.
7. nhw'n gofyn ydy hi'n bosibl i chi fynd i'r cyfarfod heno.
8. anodd cael amser i wneud popeth.
9. nhw'n brysur iawn yn ystod tymor y gwanwyn.
10. nhw'n mwynhau eu swyddi yn fawr iawn.

Pryd / Pan

- Pan = datganiad
- Bydda i'n mynd **pan** gaf i gyfle.
- Roeddwn i'n mwynhau chwarae hoci **pan** oeddwn i'n ifanc.
- Pryd = gofyn cwestiynau
neu... siarad am adeg penodol iawn mewn amser.
- **Pryd** mae amser cinio?
- Dyna **pryd** ganodd y gloch.

Cyfieithwch y canlynol...

- I'll go there when I have time.
- When is lunch break?
- Can you tell me when the Second World War happened?
- When was the Iron Age?

Cyfieithwch y canlynol...

- When were the Celts living in Wales?
- When the children read, their progress is obvious.
- This is when the volcano erupted

Ymarfer 1 : Llenwi'r bylchau. Rhowch **pan** neu **pryd** yn y bylchau isod:

1. Aeth y myfyrwyr adref orffennodd y ddarlith.
2. "..... fyddwch chi'n cyrraedd, rhowch wybod i fi".
3. Beth sy'n digwydd maen nhw'n gwneud camgymeriad?
4. mae hi'n amser mynd adref?
5. aeth Tomos i'r coleg yn Llundain roedd pawb yn falch.
6. Beth oedd dy hoff bwnc oeddet ti'n ifancach?
7. Gofynnodd Diane "..... fyddwn ni'n cael dechrau ar y gwaith?"
8. Maen nhw'n poeni fyddan nhw'n cael gwaith cartref.
9. Bydd yr athrawes yn rhoi'r adroddiad i chi fyddwch chi wedi darllen y llythyr.
10. ydw i'n gorfod rhoi'r cyflwyniad?

Nid / Nad

NAD = *That* + negyddol

NID = negyddol yn unig

NAD wyf = *that I'm not* Nid wyf = I am not

ee. Dywedodd hi wrtho ti nad wyf yn credu hynny.

Nid wyf yn dymuno sefyll yr arholiad.

NAD WYT TI'N = *that you are not/ that you aren't*

e.e. Dywedodd Sara nad wyt ti'n mynd.

Tasg ymchwilio am ffeithiau

- Childhood
- Education
- Family
- Reasons for being well known.
- Successes



Amser cyfieithu.....

- A oes angen cyfieithu gair am air?
- Chwiliwch am y wybodaeth allweddol.
- Cofiwch ddefnyddio cystrawennau Cymraeg.



Darlith nesaf:
23^{ain} o Ebrill 2024
2- 4 y.p.

